Adroddiad i'r: Pwyllgor Safonau

Dyddiad y cyfarfod: 26 Mawrth 2021

Aelod Arweiniol / Swyddog: Gary Williams, Swyddog Monitro

Awdur yr adroddiad: **Gary Williams, Swyddog Monitro**

Teitl: **Gwneud penderfyniad ynghylch honiad o dorri'r Cod Ymddygiad a gyfeiriwyd at y Pwyllgor Safonau gan Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru o dan adrannau 69 a 71(2) Deddf Llywodraeth Leol 2000.**

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad yn ymwneud ag ymchwiliad gan Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gŵyn y gallai'r Cynghorydd Richard Mainon o Gyngor Sir Ddinbych fod wedi torri Cod Ymddygiad y Cyngor Sir.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. I ystyried adroddiad yr ymchwiliad a'r dystiolaeth sydd wedi ei hatodi fel Atodiad 2 ac unrhyw sylwadau gan y Cynghorydd Mainon mewn perthynas â chanfyddiadau'r ymchwiliad ac unrhyw honiad ei fod wedi methu neu y gallai fod wedi methu cydymffurfio â'r Cod Ymddygiad sydd wedi ei gynnwys mewn adroddiad gan Ombwdsman y Gwasanaethau Cyhoeddus a wnaed o dan Adran 69 Deddf Llywodraeth Leol 2000 ac i wneud penderfyniad terfynol mewn perthynas â'r mater.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Fod y Pwyllgor yn penderfynu, ar ôl ystyried yr holl sylwadau a wnaed iddo, p'run ai a yw'r Cynghorydd Mainon wedi methu cydymffurfio gyda Chod

Ymddygiad Cyngor Sir Ddinbych ac, os felly, pa gosb, os o gwbl, y dylid ei rhoi i'r Cynghorydd Mainon.

4. Manylion yr Adroddiad

4.1. Ar 28 Ionawr 2019 fe dderbyniodd yr Ombwdsman gŵyn gan aelod o'r cyhoedd yn honni fod y Cynghorydd Mainon wedi methu â chadw at y Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau Cyngor Sir Ddinbych.

4.2. Mae adran 69 Deddf Llywodraeth Leol 2000 (y Ddeddf) yn nodi y gall yr Ombwdsman, o dderbyn cwyn, benderfynu ymchwilio. Penderfynodd yr Ombwdsman i ymchwilio i'r gŵyn hon. Wrth gwblhau'r ymchwiliad hwn fe benderfynodd yr Ombwdsman y dylai'r materion a oedd yn destun yr ymchwiliad gael eu cyfeirio i'r Swyddog Monitro i'w hystyried gan y Pwyllgor Safonau yn unol ag adran 69(4)(c) y Ddeddf.

4.3. Ar 4 Rhagfyr 2020 fe benderfynodd y Pwyllgor Safonau yn unol â Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001 y dylai'r Cynghorydd Mainon gael y cyfle i wneud sylwadau mewn perthynas â chanfyddiadau'r ymchwiliad ac unrhyw honiad ei fod wedi methu, neu y gallai fod wedi methu, cydymffurfio gyda Chod Ymddygiad Cyngor Sir Ddinbych.

4.4. Gall Aelodau o'r Pwyllgor weld yn Atodiad 1 gopi o weithdrefn y Cyngor ar gyfer ymdrin â honiadau fod Aelod wedi torri'r Cod Ymddygiad a gaiff eu cyfeirio at y Pwyllgor Safonau er mwyn cael penderfyniad.

4.5. Mae'r Ombwdsman wedi llunio adroddiad ar yr ymchwiliad yn ogystal â datganiadau tyst gan yr unigolion a gafodd eu cyfweld fel rhan o'r ymchwiliad. Gellir gweld yr adroddiad a'r datganiadau yn y bwndel sydd wedi ei atodi fel Atodiad 2 i'r adroddiad hwn.

4.6. Pe byddai angen i'r Pwyllgor ystyried p'run ai i osod cosb ai peidio ar gyfer y Cynghorydd Mainon fe fydd yn ystyried y Canllaw ar Gosbau a luniwyd gan Banel Dyfarnu Cymru, mae copi o'r canllaw wedi ei atodi fel Atodiad 3 i'r adroddiad hwn.

5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Nid yw’r adroddiad hwn yn effeithio ar y Blaenoriaethau Corfforaethol.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid oes unrhyw gostau uniongyrchol yn gysylltiedig â’r adroddiad hwn ar wahân i gostau’r gwrandawiad.

7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o’r Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen Asesiad o’r Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi’u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Nid oes unrhyw ymgynghoriadau wedi eu cynnal mewn perthynas â’r adroddiad hwn.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn deillio o'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad hwn.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Nid oes unrhyw risgiau penodol yn gysylltiedig â’r adroddiad hwn.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. a73 Deddf Llywodraeth Leol 2000